

# Cysylltu'r Gwledydd

## Adroddiad Cymru 2025



Cyhoeddwyd 19 Tachwedd 2025

# Cynnwys

## Section

Trosolwg....3

Band eang sefydlog a llais....5

Symudol, data a llais....12

# Trosolwg

Mae defnyddwyr a busnesau yng Nghymru yn dibynnu ar gysylltiadau da – boed yn y cartref, yn y gwaith neu wrth symud o le i le. Rydym eisiau sicrhau bod defnyddwyr yn y DU gyda mynediad at rhwydweithiau o safon uchel, er mwyn galluogi defnydd eang o wasanaethau digidol sy'n ennyn twf economaidd. Mae adroddiad Cysylltedd y Cenhedloedd, sydd wedi ei baratoi a'i gyhoeddi o dan Deddf Cyfathrebu 2003, yn ein helpu i fonitroargaeledd y rhwydweithiau hyn a'n rhoi data sy'n cefnogi rhanddeiliaid i ddeall y rhwydeithiau sydd ar gael yn eu hardaloedd. [1.]

Nod Ofcom yw gwneud cyfethrebiadau sy'n gweithio i bawb, gan gynnwys hybu rhwydweithiau sy'n ddibyniadwy, ar gael yn eang a sydd o safon uchel. Mae adroddiad Cysylltedd y Cenhedloedd ar gyfer Cymru y blwyddyn hon yn rhoi diweddariad ar y gwaith parhaus o ddatblygu mynediad at fand eang sy'n gallu delio â gigabits a darpariaeth rhwydweithiau symudol 5G, gan gynnwys am y tro cyntaf adrodd ar ddarpariaeth 5G annibynnol. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad ar y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau rwydweithiau ffeibr llawn a rhwydweithiau band eang sy'n gallu delio â gigabits a rhwydweithiau band eang drwy loeren.

Ochr yn ochr â'r adroddiad hwn ar Gymru, rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiadau ar wahân ar gyfer bob un o'r gwledydd eraill ac adroddiad Cysylltedd y Cenhedloedd: Adroddiad y DU 2025 sy'n cynnwys ystyriaethau pellach ar y data a'r dechnoleg sy'n cael eu trafod yn yr adroddiad hwn, yn ogystal â diweddariadau ar ddiogelwch telethrebau a mesuriadau gwydnwch.

Mae fwy o ddata ar gael ar ein dangosfwrdd rhyngweithiol, sy'n galluogi archwilio ar lefel lleol ac yn galluogi dadansoddiad o newidiadau dros amser. Yn ogystal, mae'r data ar ddarpariaeth a defnydd ar gael i'w lawr lwytho fel ffeiliau cod agored.

## Uchafbwyntiau

**Band eang**

- **Mae 78% o adeiladau preswyl yng Nghymru bellach gyda mynediad at rwydwaith ffeibr llawn.** Mae hwn yn gynnydd o deg pwynt canran ers llynedd, sy'n gyfystyr a 100,000 o adeiladau ychwanegol gyda mynediad at ffeibr llawn nag oedd yng Ngorffennaf 2025.
- **Mae'r nifer o ddefnyddwyr sydd bellach yn gwneud defnydd o'r ffeibr llawn sydd ar gael yn parhau i gynyddu yng Nghymru.** Gwelwyd cynnydd yn y canran o bobl sy'n defnyddio'r ffeibr llawn sydd ar gael iddynt, o 39% o bob adeilad yng Nghymru yn Orffennaf 2024 i 49% erbyn Gorffennaf 2025, cynnydd o 10 pwynt canran. Mae 580,000 fwy o adeiladau yn gwneud defnydd o'r ffeibr llawn sydd ar gael iddynt.
- **Mae mwy o gartrefi Cymreig yn defnyddio cysylltedd lloeren, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n anodd eu cyrraedd.** Mae nifer y tanysgrifiwyr Starlink yng Nghymru wedi cynyddu i 7,500 yn 2025 . Dyma gynnydd tua 5,000 o' flwyddyn gynt.
- **Mae nifer yr adeiladau yng Nghymru nad ydynt yn gallu cael mynediad at band eang da yn parhau i ddisgyn.** Amcangyfrifwn fod tua 6,000 neu 0.4% o adeiladau yng Nghymru heb wasanaeth band eang da, naill ai drwy Fynediad Di-wifr Sefydlog (FWA) neu linell sefydlog – gostyngiad o 2,000 o'r niferoedd ag adroddwyd y llynedd.

[1] Adrannau 134A ac 134B,

**Symudol**

- **Rydym yn adrodd ar ddarpariaeth symudol 5G annibynnol (SA) am y tro cyntaf.** Yng Nghymru mae cynhwysedd 5G tu allan i adeiladau gan o leiaf un darparwr yn 59% ar lefel Hyder Uchel (HC) ac 56% ar lefel Hyder Uchel Iawn (VHC). Mae hyn yn is na'r cyfartaledd ar draws y DU sydd ar 83% ar lefel HC, a 74% ar lefel VHC.
- **Mae darpariaeth gyffredinol 5G wedi tyfu yn gymedrol yng Nghymru.** Mae 62% o ddaearyddiaeth Cymru gyda darpariaeth gan o leiaf un darparwr ffôn symudol ar lefel HC.
- **Mae tri chwarter (76%) o ddaearyddiaeth Cymru bellach gyda ddarpariaeth 4G gan yr MNO's i gyd.** Mae darpariaeth ddaearyddol gan yr MNO's i gyd wedi codi un pwynt canran o'r llynedd.
- **Mae darpariaeth 4G tu fewn i adeiladau yn parhau i fod ar gael yn eang** gyda 99% o adeiladau gyda darpariaeth 4G gan o leiaf un MNO a 82% tu fewn i adeiladau gyda darpariaeth gan y pedwar MNO i gyd.

# Band eang sefydlog a llais

## Cyflwyniad


Mae rhwydweithiau ffibr llawn sefydlog yn parhau i ymestyn ledled Cymru, gan ddarparu band eang a gwasanaethau llais sy’n gyflymach ac yn fwy dibynadwy i gartrefi a busnesau.

Mae'r cysylltedd cynyddol ledled Cymru a gweddill y DU yn digwydd yn nhgyd-destun newidiadau ehangach yn y sector telethrebusefydlog, gan gynnwys symud i dechnoleg llais digidol o'r rhwydwaith ffôn cyhoeddus traddodiadol (PSTN). Am fwy o wybodaeth am y datblygiadau hyn, cyfeiriwch at ein Cysylltedd y Cenhedloedd 2025 yn ei gyfanrwydd, neu ein diweddariad ar Ddatblygiadau Rhyngrwyd a Gynlluniwyd ar gyfer rhwydweithiau Capasiti Uchel Iawn ar gyfer y tair blynedd nesaf yn y DU, a gyhoeddwyd ym Mai 2025.

## Trosolwg o ddarpariaeth band eang

**Llun 2.1: Trosolwg o ddarpariaeth band eang ar draws y DU**


| | Cyfradd gigabit (preswyl) | Ffeibr llawn (preswyl) | Band eang cyflym iawn (preswyl) | Heb fand eang digonol (pob safle) |
|---|---|---|---|---|
| DU | 87% | 78% | 98% | 0.1% |
| Yr Alban | 81% | 71% | 97% | 0.4% |
| Gogledd Iwerddon | 96% | 95% | 99% | 0.2% |
| Cymru | 81% | 78% | 97% | 0.4% |
| Lloegr | 88% | 79% | 98% | 0.1% |



*Ffynhonnel: Dadansoddiad Ofcom o ddata gweithredwyr (Gorffennaf 2025).*

## Darpariaeth ffibr llawn a band eang sy’n gallu delio a gigabits

**Ffigur 2.2: Cwmpas band eang gigabit a ffibr llawn yn ôl cenedl y DU**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddarparwr data (Gorffennaf 2025)*

### Mae band eang ffibr llawn bellach ar gael i dros 78% o eiddo preswyl yng Nghymru

Mae argaeledd rhwydweithiau ffibr llawn yng Nghymru yn parhau i ehangu. Fel adroddwyd ym mis Gorffennaf 2025, gall 78% neu 1.1 miliwn o gartrefi gael mynediad at fand eang ffibr llawn. Mae hyn yn gynnydd o 10 pwynt canran, neu bron i 100,000 o eiddo preswyl, o'i gymharu â mis Gorffennaf 2024.

Mae gwahaniaethau  rhwng darpariaeth ffibr llawn yn ardaloedd gwledig a rhai trefol yn parhau, gydag adeiladau preswyl mewn ardaloedd trefol yng Nghymru yn fwy tebygol o gael mynediad at rwydweithiau ffibr llawn (83% ar gyfer ardaloedd trefol, a 59% ar gyfer ardaloedd gwledig). Fodd bynnag, mae'r bwlch rhwng argaeledd mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol yn cau, gan wella o fwlch o 26 pwynt canran i fwlch o 24 pwynt canran rhwng Gorffennaf 2024 a Gorffennaf 2025. Mae adeiladau preswyl mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru wedi gweld cynnydd o 11 pwynt canran mewn mynediad at ffibr llawn (40,000 yn fwy o adeiladau preswyl mewn ardaloedd gwledig).

Fodd bynnag, mae’r lefelau amrywiol o ddarpariaeth ar gyfartaledd rhwng yr awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau:

**Tabl 2.1: Lefelau uchaf ac isaf o ddarparieth o fewn adeiladau preswyl band eang ffibr llawn yn ôl ardaloedd awdurdod lleol yng Nghymru**

| Safle | Awdurdod Lleol | % of adeiladau â darpariaeth ffibr band eang llawn |
|---|---|---|
| **1** | Sir y Fflint | 91% |
| **2** | Pen-y-bont ar Ogwr | 90% |
| **3** | Caerffili | 89% |
| **20** | Powys | 58% |
| **21** | Ynys Môn | 57% |
| **22** | Ceredigion | 51% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata gweithredwyr (Gorffennaf 2025).*

Gellir dod o hyd i ddata gorchudd pellach ar gyfer pob ardal awdurdod lleol yng Nghymru – yn ogystal ag etholaethau San Steffan a'r Senedd – yn ein hadroddiad rhyngweithiol.

## Mae band eang sy'n gallu defnyddio gigabit bellach ar gael i dros 81% oeiddo preswyl yng Nghymru

Mae'r cynnydd mewn darpariaeth ffibr llawn hefyd wedi arwain at gynnydd yn nifer yr adeiladau preswyl sy'n gallu cael mynediad at fand eang sy'n gallu defnyddio gigabit. Erbyn Gorffennaf 2025, roedd gan 81% neu 1.2 miliwn o adeiladau preswyl yng Nghymru fynediad at rwydwaith band eang sy'n gallu defnyddio gigabit. Mae hwn yn gynnydd o 7 pwynt canran, neu 100,000 o adeiladau preswyl ychwanegol o'i gymharu â Gorffennaf 2024.

**Tabl 2.2: Darpariaeth ffibr llawn yn adeiladau preswyl sy'n gallu defnyddio gigabit a ffibr llawn yng Nghymru yn ôl gwledigrwydd**

| | Ffibr llawn sy'n gallu defnyddio gigabit | Ffibr llawn |
|---|---|---|
| **Trefol** | 87% | 83% |
| **Gwledig** | 59% | 59% |
| **Cyfanswm** | 81% | 78% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata darparwyr (Gorffennaf 2025).*

Er bod llawer o'r ddarpariaeth wedi bod trwy gyflwyno masnachol, dylid nodi hefyd bod gwelliannau mewn darpariaeth wledig wedi'u cefnogi trwy arian cyhoeddus neu ymyrraeth.

Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fuddsoddiad pellach o £70 miliwn yn y prosiect Ymestyn Band Eang Cyflymder Uchel. Nod y prosiect hwn yw darparu band eang sy'n gallu defnyddio gigabeit i ardaloedd nad ydynt wedi'u cynnwys mewn cynlluniau adeiladu masnachol a'r

bwriad yw cysylltu 44,000 o gartrefi a busnesau mewn cymunedau gwledig anodd eu cyrraedd yng Nghymru. Fe'i cyflwynir ar y cyd â rhaglen ehangach Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU.[2]

Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr adeiladau preswyl sydd â mynediad i fwy nag un rhwydwaith yng Nghymru. Fodd bynnag, fel y dangosir yn Nhabl 2.3, mae cyfran yr adeiladau preswyl yng Nghymru sydd â mynediad i o leiaf ddau, neu o leiaf dri rhwydwaith yn sylweddol is na chyfartaledd y DU neu'r gyfran sydd â mynediad yn y gwledydd eraill.

**Tabl 2.3: Adeiladau preswyl sydd â mynediad i rwydweithiau sefydlog lluosog yn ôl gwlad.**

| | Mynediad i fwy nag un rhwydwaith sy'n gallu defnyddio gigabit | | Mynediad i o leiaf ddau rwydwaith (gan gynnwys rhwydweithiau nad ydynt yn gallu defnyddio gigabit) | | Mynediad i o leiaf dri rhwydwaith (gan gynnwys rhwydweithiau nad ydynt yn gallu defnyddio gigabit) | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gorffennaf 2024 | Gorffennaf 2025 | Gorffennaf 2024 | Gorffennaf 2025 | Gorffennaf 2024 | Gorffennaf 2025 |
| **Cymru** | 28% | 37% | 42% | 46% | 7% | 12% |
| **Lloegr** | 47% | 58% | 74% | 77% | 25% | 31% |
| **Gogledd Iwerddon** | 74% | 77% | 82% | 85% | 13% | 16% |
| **Yr Alban** | 41% | 49% | 65% | 68% | 19% | 22% |
| **DU** | **47%** | **57%** | **72%** | **75%** | **23%** | **29%** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata darparwyr (Gorffennaf 2025).*

# Defnydd o wasanaethau ar rwydweithiau ffibr llawn

Mae nifer cynyddol o gwsmeriaid yn defnyddio gwasanaethau band eang ar rwydweithiau ffibr llawn wrth i'w cwmpas ehangu. Ym mis Gorffennaf 2025, roedd y defnydd o wasanaethau ar rwydweithiau ffibr llawn ym mhob safle yng Nghymru (preswyl a masnachol), lle bo ar gael, yn 49% neu 580,000 o safleoedd (Tabl 2.3). Mae hyn yn gynnydd o 11 pwynt canran yn y defnydd dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r gwneud defnydd o ffibr llawn yn parhau i fod yn sylweddol uwch mewn ardaloedd gwledig nag mewn ardaloedd trefol (Tabl 2.3). Mae 58% o safleoedd mewn ardaloedd gwledig wedi cymryd mantais o'r gwasanaeth ffibr llawn sydd ar gael, o'i gymharu â 47% sy'n ei defnyddio mewn ardaloedd trefol.

**Tabl 2.4: Defnydd o wasanaethau band eang sydd ar rhwydwaith band eang (fel canran o'r holl adeiladau ble mae'r gwasanaethau hynny ar gael)**

| | Cyfanswm | Trefol | Gwledig |
|---|---|---|---|
| **Cymru** | 49% | 58% | 47% |

[2] Llywodraeth Cymru [Written Statement: Extending High Speed Broadband Project (9 June 2025) | GOV.WALES], 9 Mehefin 2025

| | Cyfanswm | Trefol | Gwledig |
|---|---|---|---|
| **Lloegr** | 41% | 54% | 39% |
| **Gogledd Iwerddon** | 62% | 65% | 60% |
| **Yr Alban** | 43% | 60% | 40% |
| **DU** | **42%** | **56%** | **40%** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata darparwyr (Gorffennaf 2025)*

# Defnydd data drwy rwydweithiau sefydlog

Mae'r defnydd data cyfartalog ar draws pob cysylltiad yng Nghymru bellach yn 560 GB fesul cysylltiad ar gyfer mis Gorffennaf 2025, cynnydd o 10% ar ffigur 2024 sef 508 GB.

# Rhwydweithiau di-wifr a Lloeren

Mae rhwydweithiau FWA a lloeren yn darparu dewis amgen i ddefnyddwyr lle nad oes ganddynt fynediad at rwydwaith mynediad sefydlog neu hyd yn oed lle mae rhwydweithiau sefydlog ar gael.

Darperir gwasanaethau FWA gan weithredwyr rhwydwaith symudol (MNOs) dros rwydweithiau 4G a 5G trwyddedig. Ar hyn o bryd, mae tri o'r pedwar MNO y DU yn cynnig gwasanaethau FWA yn y DU. Rydym yn amcangyfrif bod gan 94% o safleoedd yng Nghymru fynediad at wasanaeth diwifr sefydlog gan weithredwr symudol, dau bwynt canran yn is na'r DU cyfan.

Gellir darparu gwasanaethau diwifr sefydlog hefyd dros rwydweithiau sy'n cyfathrebu trwy gyswllt di-wifr rhwng safle mast darparwr ac antena allanol sydd wedi'i gosod ar safle cwsmer, a elwir yn WISPs. Yn seiliedig ar amcangyfrifon gan ddarparwyr, mae gan tua 24% o holl safleoedd preswyl yng Nghymru darpariaeth gan WISP. Mae hyn yn sylweddol uwch na'r ddarpariaeth sydd ar gael mewn rhannau eraill o'r DU, mae hyn oherwydd buddsoddiad hanesyddol sylweddol gan Lywodraeth Cymru yn cyflwyno'r dechnoleg yng Nghymru[3].

Darperir rhagor o gefndir ar dechnolegau FWA a lloeren yn adroddiad Cysylltedd y Cenhedloedd DU 2025.

**Tabl 2.5: Darpariaeth gan MNO a rhwydweithiau WISP sydd ag o leiaf ddarpariaeth rhesymol (bob adeilad)**

| Gwlad | MNO FWA | WISP FWA |
|---|---|---|
| **Cymru** | 94% (1.5m) | 24% (0.37m) |
| **Yr Alban** | 95% (2.8m) | 1% (0.02m) |
| **Lloegr** | 96% (25.9m) | 8% (2.2m) |
| **Gogledd Iwerddon** | 85% (0.8m) | 3% (0.026m) |
| **DU** | **96% (30.9m)** | **8% (2.65m)** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata darparwyr (Gorffennaf 2025).*

[3] Mae'r nifer o ddarparwyr sydd wedi adrodd i ni blwyddyn yma wedi gostwng I 16 ( I gymharu a 20 yn 2024).

## Gwasanaethau lloeren

Mae technolegau lloeren yn parhau i esblygu, a gallai cysylltiadau lloeren LEO gefnogi cysylltedd mewn cymunedau gwledig yng Nghymru neu lle mae'r dopograffeg mewn ardaloedd trefol yn rhwystr i gysylltedd. Ar hyn o bryd, Starlink yw'r unig weithredwr LEO sy'n cynnig darpariaeth band eang ledled y DU, gan gynnwys mewn ardaloedd anoddach i'w cyrraedd; fodd bynnag, mae hyn yn debygol o newid yn y cyfnod nesaf gan ein bod wedi trwyddedu sbectrwm yn ddiweddar ar gyfer Prosiect Kuiper Amazon ac felly rydym yn disgwyl gweld datblygiad yn y farchnad hon yn y blynyddoedd i ddod.

Mae nifer y bobl sy'n defnyddio Starlink yn parhau i gynyddu yng Nghymru, gyda dros 7,500 o gysylltiadau gweithredol yn 2025, i fyny o tua 5,000 o gwsmeriaid fel adroddwyd y llynedd. Mae dros 1400 o'r tanysgrifwyr hyn heb fynediad at fand eang gweddus trwy ddulliau eraill.

Mae technolegau lloeren yn cael eu treialu gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid i ddeall sut y gall y cyfuniad o LEO a chysylltedd symudol traddodiadol gynorthwyo systemau trafnidiaeth mewn amgylcheddau heriol. Mae'r treial 'Starbws' yn canolbwyntio ar y gwasanaeth bws gwledig 460 o Gaerfyrddin i Aberteifi, sy'n gweithredu pedair gwaith y dydd gydag amser teithio o 1 awr 26 munud. Mae'r bws wedi'i ffitio â llwybrydd methiant dros 5G/4G/Wi-Fi integredig arbenigol – sy'n newid yn awtomatig (mewn llai nag 1 eiliad) rhwng Starlink/Vodafone/EE yn ôl sut mae'r cysylltiadau yn eu galluogi. Yn ystod cyfnod gwerthuso'r prosiect, roedd galwad fideo heb ymyrraeth a ffrydio fideo 4k parhaus yn cynnwys newid o dan 1 eiliad rhwng darparwyr.

# Mynediad at fand eang digonol yng Nghymru ar gynnydd


Diffinnir band eang digonol fel cysylltiad â lleoliad sefydlog sy'n darparu cyflymder lawr lwytho o leiaf 10 Mbit/s a chyflymder uwchlwytho o 1 Mbit/s. Ers y llynedd, mae nifer yr adeiladau nad ydynt yn gallu cael mynediad at fand eang digonol trwy gysylltiad llinell sefydlog yng Nghymru wedi gostwng 3,000 i tua 32,000, neu 2% o'r holl adeiladau.

O'r adeiladau hynny, lle nad oes ganddynt fynediad at fand eang digonol trwy linellau sefydlog, mae cyfran fawr yn gallu cael mynediad at fand eang trwy wasanaethau FWA a gynigir gan MNOs neu WISPs.

Gan ystyried y ddarpariaeth sydd ar gael gan FWA, rydym yn amcangyfrif bod hyn yn gadael tua 6,000 neu 0.4% o adeiladau yng Nghymru sydd heb wasanaeth band eang digonol o naill ai llinell sefydlog na FWA.

Mae'r nifer sy'n weddill o adeiladau heb fynediad at wasanaeth band eang digonol wedi gostwng tua 2,000 o'r tua 8,000 o adeiladau a adroddwyd gennym y llynedd.

**Llun 2.3: Rhif yr eiddo yng Nghymru sydd heb gysylltiad band eang da**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata darparwyr (Gorffennaf 2025)*

## Rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang

Mae'r rhwymedigaeth gwasanaeth cyffredinol band eang (USO)[4] yn rhoi'r hawl i ofyn am gysylltiad band eang gyda chyflymder lawrlwytho o leiaf 10 Mbit/s a chyflymder uwchlwytho o 1 Mbit/s (yn ogystal â sawl nodwedd dechnegol benodol arall) i gartref neu fusnes, yn amodol ar ofynion cymhwysedd a fforddiadwyedd[5]. BT yw'r darparwr gwasanaeth cyffredinol ar gyfer y DU (ac eithrio Hull), a KCOM ar gyfer ardal Hull. Mae'n ofynnol iddynt ddarparu'r USO ac adrodd bob chwe mis ar y danfoniad6.

Ym mis Medi 2025, derbyniodd BT dros 250 o archebion USO yng Nghymru ers lansio'r USO ym mis Mawrth 2020. Mae pob archeb yn gofyn am adeiladu rhwydwaith a all wasanaethu sawl adeilad, ac felly mae'r archebion hyn wedi arwain at adeiladu cysylltiadau ffibr llawn a all wasanaethu dros 1,400 o adeiladau yng Nghymru.

---

[4] Lle nad oes gwasanaeth fforddiadwy gyda'r nodweddion hyn ar gael, neu lle mae i ddod ar gael yn y 12 mis nesaf o dan gynllun a ariennir yn gyhoeddus, mae'r cwsmer yn gymwys ar gyfer y USO os yw costau darparu'r cysylltiad yn is na £3,400. Lle mae'r costau'n uwch na £3,400, mae gan y cwsmer yr opsiwn o dalu'r costau ychwanegol i gael cysylltiad USO.

[5] Yn benodol, y nodweddion hyn yw: (i) cymhareb cystadlu o ddim mwy na 50:1; (ii) oedi sy'n gallu caniatáu i'r defnyddiwr terfynol wneud a derbyn galwadau llais yn effeithiol; a (iii) y gallu i ganiatáu defnydd data o leiaf 100 GB y mis.

[6] BT, USO Reports. KCOM, USO Reports. Hyd yma, ni ar ddeall nad yw KCOM wedi derbyn ceisiadau cymmwys am USO

# Symudol, data a llais

## Cyflwyniad

Mae cysylltedd symudol yn chwarae rhan hanfodol yn y ffordd y mae pobl yng Nghymru yn cael mynediad at wasanaethau, yn cyfathrebu ac yn aros mewn cysylltiad.

Mae'r adran hon, rydym yn adrodd ar ddarpariaeth gwasanaethau 5G, gan gynnwys darpariaeth 5G annibynol am y tro gyntaf. Rydym yn parhau i gadw golwg ar argaeledd darpariaeth 4G, y tu fewn a thu allan ac ar draws  ddaearyddiaeth Cymru. Yn olaf, cynigwn ddiweddariad ar dyfiant traffig symudol.

Rydym hefyd yn adlewyrchu ar rôl cynyddol darparwyr niwtral wrth gefnogi cysylltedd ac yn cynnwys ystadegau perthnasol o’n teclyn ar gyfer defnyddwyr ar y we sy’n gwirio darpariaeth, Mapiwch Eich Ffôn Symudol (MYM), sy’n adrodd ar ddarpariaeth a pherfformiad.

Mae ein hadroddiadau ar ddarpariaeth symudol yn yr adroddiad hwn yn defnyddio'r un fethodoleg ag adroddiadau Cysylltu’r Gwledydd yn flaenorol. Fodd bynnag, rydym yn parhau i ystyried sut i esblygu ein dull o adrodd ar ddarpariaeth symudol a byddwn yn archwilio hyn ymhellach gyda MNOs dros y flwyddyn nesaf, mewn perthynas â darpariaeth a pherfformiad.

Rydym yn argymell darllen yr adran hon ar y cyd â'r adran 'Symudol, data a llais' yn ein hadroddiad Cysylltedd y Cenhedloedd: DU 2025, sy’n cynnwys gwybodaeth ychwanegol ar ardaloedd fel buddsoddiad symudol a diffodd 2G A 3G.

# Crynodeb o’r ddarpariaeth symudol

**Figwr 3.1: Trosolwg o’r ddarpariaeth llais a data ledled y DU[7,8]**

| | 5G y tu allan i adeiladau (amrediad MNO) | 5G SA y tu allan i adeiladau (amrediad MNO) | 4G y tu allan i adeiladau (amrediad MNO) | 4G daearyddol (amrediad MNO) | Cyfanswm mannau di-gyswllt 4G | Cyfanswm mannau di-gyswllt llais a thestun |
|---|---|---|---|---|---|---|
| DU | 64-89% | 47-65% | 99-99%+ | 89-90% | 4% | 3% |
| Yr Alban | 59-84% | 40-64% | 99-99%+ | 79-81% | 10% | 6% |
| Gogledd Iwerddon | 38-95% | 20-91% | 98-99% | 90-96% | 2% | 1% |
| Cymru | 23-89% | 12-57% | 99% | 84-90% | 3% | 2% |
| Lloegr | 67-91% | 47-67% | 99%+ | 95-96% | 1% | 1% |



*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ddata gweithredwyr (Gorffennaf 2025)*

[7] Mae'r ystodau MNO yn y ffigur hwn yn cyfeirio at y rhychwant rhwng yr MNO gyda'r sylw lleiaf a'r hyn gyda'r sylw mwyaf ar fesur penodol. Ar gyfer 5G a 5G SA y tu allan i adeiladau, mae'r ystod MNO yn seiliedig ar ein mesur 'Hyder Uchel', yn hytrach na'r mesur 'Hyder Uchel Iawn' yr ydym hefyd yn ei ddefnyddio yn yr adroddiad hwn. Sylwch mai dim ond tri MNO sydd wedi defnyddio gwasanaethau 5G SA. Felly, mae cyfeiriadau at 5G SA yn yr adroddiad hwn yn adlewyrchu'r cwmpas a'r traffig a adroddwyd gan y gweithredwyr hyn yn unig. Nid yw Three yn defnyddio gwasanaeth 5G SA ar hyn o bryd

[8] Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am sut rydym yn diffinio a mesur cwmpas yn ein Methodoleg Cenhedloedd Cysylltiedig

# Darpariaeth 5G

## 5G annibynnol (5g SA)

Mae'r newid i ddarpariaeth 5G SA (gan ddefnyddio rhwydwaith craidd 5G newydd) ar y gweill yng Nghymru ac, er bod lefelau'r ddarpariaeth yng Nghymru ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU, mae'r ddarpariaeth 5G cyffredinol wedi gwella.

Yng Nghymru, mae darpariaeth 5G SA y tu allan i adeiladau gan o leiaf un MNO yn 59% ar lefel HC a 56% ar lefel y VHC. Mae hyn yn cymharu ag 83% ar lefel y HC, a 74% ar lefel y VHC ledled y DU.

Ceir rhagor o wybodaeth am sut rydym yn diffinio ac yn mesur gorchudd 5G yn ein Adroddiad Cysylltedd y Cenhedloedd: DU 2025

## Darpariaeth 5G tu allan i adeiladau

Yn gyffredinol, cynyddodd y ddarpariaeth 5G y tu allan i adeiladau a darparwyd gan o leiaf un MNO gan pum bwynt canran o'i gymharu â 2024 ar lefel y HC, gan gyrraedd 91%, a saithpwynt canran ar lefel y VHC, gan gyrraedd 86%. Mae'r ffigurau hyn chwech ac wyth pwynt canran yn is na chyfartaleddau'r DU yn y drefn honno, er bod tueddiadau twf yn unol â gweddill y DU.

**Figwr 3.2: Ystod y MNO ar gyfer darpariaeth 5G y tu allan i adeiladau ar lefel HC.**




*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ragfynegiadau gweithredwyr (Gorffennaf 2025).*

Mae Tabl 3.2 yn dangos, ar draws y pedwar MNO, fod darpariaeth 5G y tu allan i adeiladau yn amrywio o 23% i 89% ar lefel y HC (i fyny o 16% i 80% ym mis Medi 2024) a 21% i 84% ar lefel y VHC (i fyny o 15% i 74%). BT/EE yw'r MNO gyda'r lefel uchaf o ddarpariaeth yn ôl y metrig hwn.

**Tabl 3.2: Darpariaeth 5G y tu allan i safleoedd yng Nghymru yn ôl MNO**

| | Hyder Uchel Iawn | Hyder uchel |
|---|---|---|
| **BT/EE** | 84% | 89% |
| **Three** | 29% | 54% |
| **Virgin Media O2** | 21% | 23% |
| **Vodafone** | 25% | 33% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ragfynegiadau gweithredwyr (Gorffennaf 2025).*

## Darpariaeth ddaearyddol 5G

Mae darpariaeth ddaearyddol 5G yng Nghymru yn parhau i ddatblygu ar gyflymder cymedrol. Mae gan 57% o dir Cymru ddarpariaeth gan o leiaf un MNO ar lefel y HC (i fyny o 52% yn 2024). Yr ystod o orchudd daearyddol 5G rhwng MNOs ar lefel y HC yw 4 i 53% (i fyny o 2 i 47% yn 2024) a 3 i 44% ar lefel y VHC (i fyny o 1 i 39% yn 2024).

Mae'r cynnydd hwn mewn darpariaeth wedi'i yrru gan ddatblygiadau 5G ychwanegol, gyda dros 29,100 o safleoedd 5G bellach yn weithredol ledled y DU. Mae dosbarthiad y safleoedd hyn ar draws gwledydd y DU wedi aros yn gyson - gyda 4% wedi'u lleoli yng Nghymru.

# Darpariaeth 4G

## Darpariaeth ddaearyddol 4G

Er bod darpariaeth 5G yn ehangu, mae'n bwysig nodi bod y rhan fwyaf o bobl yn dal i ddefnyddio gwasanaethau llais a data dros 4G. Yn dilyn twf yn 2024, cynyddodd lefelau darpariaeth ddaearyddol 4G yng Nghymru ddau bwynt canran rhwng 2024 a 2025 gyda darpariaeth ddaearyddol o 97% gan o leiaf un MNO wedi'i rhagweld ym mis Gorffennaf 2025. Mae 77% o ddaearyddiaeth Cymru bellach yn cael ei gwasanaethu gan y pedwar MNO.

**Tabl 3.2: Darparieeth ddaearyddol 4G bob MNO yng Nghymru**

| | 2024 | 2025 |
|---|---|---|
| **BT/EE** | 89% | 90% |
| **Three** | 88% | 90% |
| **Virgin Media O2** | 84% | 84% |
| **Vodafone** | 85% | 87% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ragfynegiadau gweithredwyr (Gorffennaf 2025).*

Cymru yw gwlad y DU gyda'r lefelau isaf ond un o ddarpariaeth ddaearyddol 4G, fel sy'n dangos yn Nhabl 3.3. Mae pob un o bedair gwlad y DU wedi gweld darpariaeth cymharol sefydlog dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Tabl 3.3: Gorchudd daearyddol 4G gan bob MNO yn ôl gwlad y DU**

| Cenedl | 2024 | 2025 |
|---|---|---|
| **Cymru** | 75% | 76% |
| **Yr Alban** | 65% | 67% |
| **Lloegr** | 90% | 90% |

| Cenedl | 2024 | 2025 |
|---|---|---|
| **Gogledd Iwerddon** | 85% | 85% |
| **DU** | **80%** | **81%** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ragfynegiadau gweithredwyr (Gorffennaf 2025).*

Mae'n debygol bod y Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN) wedi cyfrannu at y cynnydd mewn darpariaeth ddaearyddol 4G yng Nghymru yn dilyn buddsoddiad dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Cyflawnodd y cwmnïau symudol eu rhwymedigaethau cyn 2024 i ddarparu darpariaeth ddaearyddol dda i 88% o dirfas y DU ac maent wedi parhau i gynnal darpariaeth ar y lefel hon dros y flwyddyn ddiwethaf.[9] Mae rhwymedigaethau pellach ar waith i gwmnïau symudol gyflwyno safleoedd ychwanegol mewn ardaloedd "Mannau Di-ddarpariaeth Cyflawn" erbyn 2027.[10] Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am y SRN yn adroddiad Cysylltu'r Gwledydd DU 2025.

## Darpariaeth 4G tu allan i adeiladau

Mae cwmnïau symudol yn parhau i ddarparu lefel uchel o wasanaeth 4G y tu allan i adeiladau yng Nghymru, gyda 97% o adeiladau yn cael gwasanaeth 4G awyr agored gan bob un o'r pedwar gweithredwr, fodd bynnag mae hyn yn parhau i fod dau bwynt canran yn is na chyfartaledd y DU ac nid yw wedi newid dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ardaloedd gwledig Cymru, mae 99% o ddarpariaeth y tu allan i adeiladau bellach gan o leiaf un cwmni rhwydweithio symudol (MN0) ac mae Tabl 3.4 yn dangos bod lefelau uchel o wasanaeth y tu allan i adeiladau bellach ar draws pob cwmni symudol mewn ardaloedd gwledig Cymru.

**Tabl 3.4: Darpariaeth 46 tu allan i adeiladau yn ardaloedd gwledig Cymru (fesul darparwr)**

| MNO | % of adeiladau gweledig gyda darpariaeth tu allan |
|---|---|
| **BT/EE** | 97% |
| **Three** | 96% |
| **Virgin Media O2** | 95% |
| **Vodafone** | 96% |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ragfynegiadau gweithredwyr (Gorffennaf 2025).*

## Mae darpariaeth dan do yn parhau i fod ar gael yn eang

Gall darpariaeth symudol dan do amrywio yn dibynnu ar ffactorau fel trwch wal, deunyddiau adeiladu a ddefnyddir wrth adeiladu a ble mewn adeilad mae pobl yn defnyddio eu ffôn. O

[9] Diffinnir darpariaeth ansawdd da fel y gallu i gynnal galwad llais 90 eiliad a mynediad at gyflymder data o leiaf 2 Mbit / s, gyda methodoleg i asesu hyn yn seiliedig ar signal 4G o leiaf -105 dBm - yn unol â methodoleg y Cenhedloedd Cysylltiedig ar gyfer adrodd ar sylw 4G.

[10] Ystyr “Total Not Spot" yw ardaloedd daearyddol yn y DU sy'n dod y tu allan i holl Olion Traed Cwmpasu Gwaelodlin 2020 yr MNOs.

ganlyniad, efallai y bydd gwahaniaethau rhwng data darpariaeth dan do a ragwelir gan y cwmnïau rhwydweithio symudol a'r profiad gwirioneddol mewn rhai adeiladau[11], [12]

Bu cynnydd o ddau bwynt canran yng Nghymru yng nghanran yr adeiladau dan do sydd â darpariaeth 4G gan bob un o'r pedwar cwmni rhwydweithio symudol ers mis Medi 2024: Tabl 3.X: Darpariaeth 4G adeiladau dan do yn ôl gwlad y DU.

**Tabl 3.5: Darpariaeth 4G adeiladau dan do yn ôl gwlad y DU.**

| Cenedl | O leiaf un MNO | Y Pedwar MNOs |
|---|---|---|
| **Cymru** | 99% | 82% |
| **Yr Alban** | 99%+ | 89% |
| **Lloegr** | 99%+ | 89% |
| **Gogledd Iwerddon** | 99% | 75% |
| **DU** | **99%+** | **88%** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ofcom o ragfynegiadau gweithredwyr (Gorffennaf 2025).*

# Gwiriwr darpariaeth Mapio Eich Ffôn Symudol

Rydym wedi gwneud newidiadau i'n gwiriwr darpariaeth Mapio Eich Ffôn Symudol (MYM). Mae'r rhain yn cynnwys defnyddio trothwyon cryfder signal uwch, ymgorffori data perfformiad a gasglwyd gan y dorf a darparu esboniadau cliriach o bwrpas y gwiriwr.

Y nod yw rhoi gwell dealltwriaeth i ddefnyddwyr o argaeledd gwasanaethau ar lefel leol, gan eu helpu i wneud dewisiadau gwybodus am ddarparwyr.

Mae'r gwiriwr MYM bellach yn defnyddio trothwyon awyr agored o -95dBm a -105dBm, gan gynnig dull niwtral o ran technoleg ar gyfer rhagfynegiadau lleol a defnyddio data ar fanylder manylach o 50m x 50m picsel. Ni fwriadwyd i'r trothwyon hyn ddisodli'r rhai a ddefnyddir yn y Cysylltedd y Gwledydd, ond yn hytrach i fynd i'r afael ag ansicrwydd hysbys mewn rhagfynegiadau ar lefel leol ac adlewyrchu argaeledd ar gyfer gwasanaethau mwy heriol a ddefnyddir heddiw[13,14].

[11] Mae Ofcom yn pennu'r darpariaeth dan do drwy gymhwyso colled mynediad adeilad cyfartalog o 10dB ar draws adeiladau. Dim ond golwg symlach o sylw dan do y mae'r dull hwn yn ei ddarparu ac mae'r profiad go iawn yn dibynnu'n fawr ar y mathau o ddeunydd adeiladu ac inswleiddio mewn adeilad penodol.

[12] Mae Mapio Eich Ffôn Symudol Ofcom yn darparu gwybodaeth am y tebygolrwydd y bydd darpariaeth dan do mewn adeiladau mewn gwahanol leoliadau ac yn egluro mwy am y ffactorau sy'n effeithio ar signal symudol dan do. Mae'r map hwn a gynhyrchwyd gan Ofcom yn defnyddio rhagfynegiadau sylw MNOs sy'n nodi lefelau signal ym mhob lleoliad yn y DU.

[13] Mae MYM yn defnyddio lefel perfformiad a ddiffinnir fel: lawrlwytho ≥5 Mbit/s, uwchlwytho ≥1.5 Mbit/s, a latency ≤50 ms. Nid oes cryfder signal o fewn ystod resymol lle mae perfformiad wedi'i warantu uwchlaw neu islaw lle mae perfformiad yn sero. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i arfer barn wrth osod trothwyon ar gyfer ein hadroddiadau ar gyfer y sylw, gan gynnwys barn ynghylch sut y bydd defnyddwyr yn dehongli'r hyn sy'n cael ei bortreadu.

[14] MYM Methodology

Mae'r tablau isod yn dangos data MYM ar lefel y gwledydd a'r DU. Mae data manwl ar y trothwyon hyn ar gael yn etholaeth y Senedd a San Steffan ac yn yr awdurdod lleol yn ein hadroddiad rhyngweithiol.

**Tabl 3.6: Darpariaeth daearyddol gan ddefnyddio trothwy MYM**

| Cenedl | O leaiaf un MNO | | Y pedwar MNO I gyd | |
|---|---|---|---|---|
| | -105dBm | -95dBm | -105dBm | -95dBm |
| **Yr Alban** | 90% | 78% | 67% | 39% |
| **Cymru** | 97% | 87% | 77% | 47% |
| **Gogledd Iwerddon** | 98% | 92% | 86% | 51% |
| **Yr Alban** | 90% | 78% | 67% | 39% |
| **DU** | **96%** | **88%** | **82%** | **51%** |

**Tabl 3.7: Darpariaeth tu allan i adeiladau gan ddefnyddio trothwy MYM**

| Cenedl | O leiaf un MNO | | Y pedwar MNO I gyd | |
|---|---|---|---|---|
| | 105dBm | -95dBm | -105dBm | -95dBm |
| **Cymru** | 99%+ | 99% | 97% | 83% |
| **Lloegr** | 99%+ | 99%+ | 99% | 90% |
| **Gogledd Iwerddon** | 99%+ | 99% | 97% | 77% |
| **Yr Alban** | 99%+ | 99%+ | 99% | 90% |
| **DU** | **99%+** | **99%+** | **99%** | **89%** |

## Darpariaeth llais

Mae gwasanaethau llais symudol gan bob un o'r pedwar MNO ar gael ar draws 81% o ddaearyddiaeth Cymru, sy'n gynnydd o ddau bwynt canran o'i gymharu â'r llynedd. Mae’r ddarpariaeth llais sydd ar gael y tu mewn a thu allan i adeiladau gan bob MNO yn 89% a 98%, yn y drefn honno.

Mae anghydraddoldeb yn parhau rhwng darpariaeth llais y tu mewn i adeiladau mewn ardaloedd trefol a gwledig gan bob MNO, gydag ardaloedd trefol gyda darpariaeth 95% o'i gymharu ag ardaloedd gwledig sydd yn 67%. Fodd bynnag, mae gan 98% o safleoedd gwledig yng Nghymru darpariaeth llais gan o leiaf un MNO. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar ein dangosfwrdd rhyngweithiol.

# Defnydd symudol

Mae defnydd traffig symudol yn parhau i dyfu yng Nghymru, yn adeiladu ar dueddiadau blaenorol, gyda chynnydd sylweddol o 10PB[15] (22%) i 54 PB rhwng 2024 a 2025.[16]

Mae yna hefyd wedi bod cynnydd o sylw yn y lefel absoliwt o draffig 5G (yn cynyddu o 6PB i 12PB) ac mae'r rhan o'r cyfanswm cyffredinol yng Nghymru o'i defnydd ( yn cynyddu o 14% o 22%) rhwng 2004 a 2025. Er hynny, 4G sy'n parhau i gario'r traffig symudol yn bennaf, gyda 42 PB (77%) o'r holl draffig yn 2025.

Mae fwy o wybodaeth am y tueddiadau hyn i'w wd yn yr adroddiad Cysylltu'r Gwledydd y DU 2025.

[15] Un petabyte (PB) yn gyfystyr a 1 milwn gigabytes (GB)

[16] Mae'r ffigyrau hyn yn trafod defnydd misol o draffic symudol yn seiliedig ar ddata casgwlyd gan yr MNO'r ym mis Gorffennaf 2024 a 2025.